

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

**25. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Gavin Harris a Jabez Oakes.

**26. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**27. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 March 2021 yn gywir.

**28. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**29. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Hysbysoedd y Clerc fod y penderfyniadau cynllunio isod wedi'u gwneud gan Gyngor Sir Ddinbych ers y cyfarfod blaenorol.

Capel Bryn Seion, Galltegf, Rhuthun – Adeiladu estyniad deulawr cysylltiedig - Caniatawyd Tir yn Nhŷ'n y Wern, Ffordd Corwen – Manylion y tirlunio a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 6 cod rhif 02/2018/0722 – Cymeradwywyd

Tir yn Nhŷ'n y Minffordd, Llanfwrog – prosiect adnewyddu llinell drydan dros ben 11KV - Llanfwrog, Clocaenog, Derwen – dim gwrthwynebiad

Scott House, Ffordd Corwen, Rhuthun – Gwaith ar goed sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed - Caniatawyd

Cyn Storffeydd Wynnstay, Heol y Parc, Rhuthun – Arddangos 1 arwydd ffasgia wedi'u oleuo'n allanol ac 1 arwydd ar wahân - Caniatawyd

Stryd yr Wylan, Rhuthun – Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer newid arfaethedig y garej – Ardystiwyd

**30. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

**PENDERFYNWYD:** *nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau isod.*

**02/2021/0242 - Firewood Supplies, Ystad Ddiwydiannol Lôn Parcwr, Rhuthun**

Amrywio amod rhif 1 cyfeirnod 02/2016/0341 i ganiatáu pum mlynedd arall cyn dechrau datblygu (Dymchwel y strwythurau sy'n bodoli ac adeiladu adeilad diwydiannol ar gyfer storio logiau ac offer/peiriannau cysylltiedig)

**02/2021/0244 – Manorhaus, 10-12 Stryd y Ffynnon, Rhuthun**

Dymchwel ystafell haul ac adnewyddu ffenestr sash Sioraidd, addasiadau mewnol ac allanol (Cais Adeilad Rhestredig)

**02/2021/0250 – Yr Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun**

Arddangos un arwydd ffasgiad, un arwydd crog a sgrîn poster digidol wedi'i oleuo

**02/2021/0251 - Yr Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun**

Mân addasiadau mewnol ac allanol yn dilyn cwblhau gwaith adnewyddu sylweddol a ganiatwyd yn flaenorol dan gyfeirnod 02/2019/0002 (Cais Adeilad Rhestredig)

**02/2021/0263 - 9 Stryd y Castell, Rhuthun**

Adeiladu estyniad lolfa haul newydd i gefn yr annedd a gwaith cysylltiedig

**02/2021/0264 - 9 Stryd y Castell, Rhuthun**

Adeiladu estyniad lolfa haul newydd i gefn yr annedd a gwaith cysylltiedig (Cais Adeilad Rhestredig)

**02/2021/0290 – Mynsvale, Ffordd Dinbych, Rhuthun**

Adeiladu estyniad ar gefn yr annedd ac addasiadau i wal yr ardd gefn

**02/2021/0312 - 30 Parc y Castell, Rhuthun**

Newid garej cysylltiedig i ffurfio llety byw ychwanegol a adeiladu storfa ar wahân

**02/2021/0317 - Ruthin Farmers Auction Co. Ltd.**

Codi estyniad i ffurfio gwagle gwerthu da byw ac aml-ddefnydd

**02/2021/0327 - Pendorlan, Ffordd Llanfair, Rhuthun**

Codi estyniadau ac addasiadau i'r annedd

**PENDERFYNWYD:** *cyflwyno'r sylwadau isod ynghylch y ceisiadau a ganlyn:*

**02/2021/0165 - Plot 2, Pennant, Bryn Goodman, Rhuthun**

Adeiladu estyniad i'r garej domestig sy'n bodoli eisoes

*Cynnwys amod fod y garej ar gyfer defnydd domestig yn unig.*

**02/2021/0271 – Adeilad allanol a thir oddi ar Stryd y Lllys, Rhuthun**

Newid ac adeiladu estyniad i adeilad allanol i ffurfio uned llety gwyliau, addasiadau i'r fynedfa gerbydau sy'n bodoli, gwaith tirlunio a gwaith cysylltiedig

**02/2021/0277 - Adeilad allanol a thir oddi ar Stryd y Lllys, Rhuthun**

Newid ac adeiladu estyniad i adeilad allanol i ffurfio uned llety gwyliau, addasiadau i'r fynedfa gerbydau sy'n bodoli, gwaith tirlunio a gwaith cysylltiedig (Cais Adeilad Rhestredig)

*Cynnwys amod fod yr adeilad i'w ddefnyddio fel uned llety gwyliau ac nid preswylfa barhaol.*

**PENDERFYNWYD:** *gwrthwynebu'r cais isod:*

**02/2021/0179 - The Nook, Bryn Goodman, Rhuthun**

Dymchwel yr annedd sy'n bodoli eisoes ac adeiladu 4 fflat preswyl gyda manau parcio cysylltiedig a mynedfa i'r cefn

*Byddai'r cynnig arfaethedig yn gorddatblygu'r safle, ac ni fyddai'n cyd-fynd â chymeriad yr eiddo eraill cyfagos. Byddai'n achosi cynnydd yn y traffig. Mynegwyd pryder hefyd a yw'r cynlluniau ar gyfer mynediad i eiddo yn y cefn yn ddichonadwy o ystyried y coed ar y safle. Roedd yr aelodau o'r farn fod angen adroddiad arolwg coed proffesiynol.*

**31. YMGYNGHORIAD TEITHIO LLESOL**

Roedd yr aelodau wedi edrych ar hyn yn unigol ac awgrymwyd cysylltu gyda Sustrans i ddarparu adborth ynghylch yr ymatebion a chanfyddiadau'r ymgynghoriad i gyfarfod llawn y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:** *cysylltu gyda Sustrans i ddarparu adborth ynghylch yr ymateb i'r ymgynghoriad a'r canfyddiadau i gyfarfod llawn y Cyngor.*

**32. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Fawrth, 4 Mai 2021, am 7.45pm.*